Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Llangwyryfon
Llangwyryfon
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4HA

28/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llangwyryfon yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un o flaenoriaethau presennol yr ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u dysgu

- Mae'r pennaeth wedi gosod pwyslais clir ar gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Mae'r pennaeth a'r staff wedi cydweithio'n bwrpasol i ddatblygu'r addysgu ac i ddarparu adnoddau addas i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion i ddysgu'n annibynnol.
- Mae'r pennaeth yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff, fel cydweithio ag ysgolion cyfagos, i rannu syniadau ac arferion effeithiol. Mae hyn yn cefnogi hyder a gallu staff i ddarparu profiadau dysgu difyr sy'n dechrau hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn briodol.
- Mae staff yn amrywio'r dulliau addysgu i gefnogi disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Maent yn gwerthuso effaith y dulliau hyn ar ddatblygiad medrau'r disgyblion, gan eu mireinio, fel y bo angen. Er enghraifft, mae'r staff wedi mabwysiadu strategaeth

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

'Fi, Ni, Ti' ar gyfer arfogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol wrth wella eu gwaith.

- Mae staff yn hwyluso'r dysgu yn effeithiol. Maent yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a gwneud dewisiadau'n gynyddol annibynnol..
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu ystod o fedrau rhif a llythrennedd wrth chwarae a dysgu yn yr ardaloedd dysgu ysgogol. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn magu hyder ac yn dechrau gwneud penderfyniadau annibynnol am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

## Sicrhau strwythur a threfn bendant i weithredu prosesau gwerthuso a gwella effeithiol

- Mae gan yr ysgol amserlen hunanwerthuso addas sy'n adnabod cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr ystyried ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys ymweld â dosbarthiadau, craffu ar waith, a chanfod barn disgyblion.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso agweddau o waith yr ysgol sy'n cefnogi lles disgyblion yn fwriadus.
- At ei gilydd, mae arweinwyr yn dod i gasgliadau priodol ynghylch ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion. Er hyn, maent yn cydnabod bod lle i fanylu ymhellach ar ddatblygiad medrau penodol disgyblion, gan ystyried canllawiau cenedlaethol perthnasol yn arf.
- Mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau gwella perthnasol yn llwyddiannus. Maent yn pennu camau gweithredu synhwyrol er mwyn gwella agweddau o'r ddarpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu rôl llywodraethwyr yn y broses hunanwerthuso. Mae hyn yn dechrau cryfhau eu gallu i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672310

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol